# TAFLEN WYBODAETH I GYFRANOGWYR

**Arolwg 'Cynhesrwydd tai ac iechyd a lles yng Nghymru'**

Gofynnir i chi gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil sy'n cael ei chynnal gan M.E.L Research ar ran Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyn i chi benderfynu a hoffech gymryd rhan, mae'n bwysig eich bod yn deall pam mae'r ymchwil yn cael ei wneud a beth mae'n ei olygu i chi. **Cymerwch amser i ddarllen y wybodaeth ganlynol a phenderfynu a ydych am gymryd rhan neu beidio yn yr astudiaeth hon.** Gallwch hefyd gysylltu â ni os oes unrhyw beth nad yw'n glir neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth. Mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon.

**Pam mae'r astudiaeth hon yn cael ei chynnal?**

Bydd yr arolwg hwn yn helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut mae cartrefi yng Nghymru yn cadw'n gynnes yn y gaeaf. Ar hyn o bryd, does dim llawer o wybodaeth ar gael am dymheredd cartrefi yng Nghymru ac unrhyw gysylltiadau rhwng tymheredd dan do ac iechyd a lles. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig er mwyn sicrhau bod canllawiau ar isafswm tymheredd dan do yng Nghymru yn addas, er mwyn cadw pobl yn gyfforddus ac yn ddiogel.

**Pam ydw i wedi cael fy newis?**

Fe’ch dewiswyd ar hap i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Dim ond pobl 18 oed a throsodd, sy'n byw yng Nghymru, sy'n cael cais i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Gallwch gymryd rhan yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**A oes rhaid imi gymryd rhan?**

Na, chi sy’n penderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio. Mae cwblhau’r holiadur yn gwbl wirfoddol. Mae croeso ichi stopio ar unrhyw adeg, ac nid oes rhaid ichi roi rheswm. Ni fydd penderfynu stopio yn effeithio ar eich hawliau, unrhyw driniaeth iechyd yr ydych yn ei derbyn ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, na’r gwasanaethau rydych yn eu derbyn. RGan fod yr holiaduron yn ddienw a chan na fyddwn yn gallu adnabod eich atebion personol ar ôl eu cwblhau, ni fydd modd tynnu'n ôl o'r astudiaeth unwaith y bydd yr holiadur wedi'i gyflwyno.

**A ydw i'n addas i gymryd rhan?**

Rydych yn addas i gymryd rhan yn yr astudiaeth os ydych yn 18 oed neu'n hŷn a'ch bod yn byw yng Nghymru.

**Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cymryd rhan?**

Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan yn yr ymchwil hon, gofynnir i chi gwblhau arolwg byr ar-lein, sydd fel arfer yn cymryd llai nag 20 munud i'w gwblhau. Ar ddiwedd yr holiadur, gofynnir i chi a hoffech gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol. Os ydych yn cytuno, byddwn yn cofnodi rhai manylion cyswllt gennych a fydd yn cael eu storio ar wahân i'ch ymatebion. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi yn ddiweddarach i weld a fyddech chi'n fodlon cymryd rhan bryd hynny mewn ymchwil yn y dyfodol.

**Pa gwestiynau a ofynnir?**
Gofynnir cwestiynau i chi am eich cartref, y tymheredd dan do, cysur thermol a’ch defnydd o wres. Gofynnir i chi hefyd am rywfaint o wybodaeth gyffredinol amdanoch chi, eich iechyd, a'ch ymddygiad mewn perthynas ag iechyd. Nid oes **unrhyw** atebion cywir neu anghywir.

**Beth yw’r manteision posibl o gymryd rhan?**
Efallai na fyddwch yn derbyn unrhyw fuddion uniongyrchol o ganlyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, ond bydd eich ymatebion yn helpu i wella ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng tymheredd dan do, cyflwr tai ac iechyd a lles yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod canllawiau ar isafswm tymheredd dan do yng Nghymru yn addas.

**Beth yw’r anfanteision posibl o gymryd rhan?**
Efallai y gwelwch fod rhai o'r cwestiynau a ofynnir yn bersonol eu natur. Os ydych yn teimlo'n anghyfforddus wrth ateb cwestiwn, nid oes rhaid i chi ateb y cwestiwn hwnnw.

Bydd ein hymchwilwyr hyfforddedig yn eich trin yn deg a chyda pharch. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon am yr astudiaeth, gan gynnwys y ffordd y cysylltwyd â chi neu’r ffordd y cawsoch eich trin, cysylltwch â M.E.L Research gyda’r manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon.

**A fydd fy nghyfraniad i’r astudiaeth yn gyfrinachol?**
Mae eich ymatebion gonest yn bwysig i ni a bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol. Ni fydd yr ymchwilydd yn dweud wrth unrhyw un eich bod wedi cymryd rhan a bydd eich atebion yn ddienw.

Mae'r holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol a bydd yn cael ei storio'n ddiogel. Dim ond unigolion awdurdodedig o Iechyd Cyhoeddus Cymru fydd yn cael mynediad at y wybodaeth. Ni fydd unrhyw unigolion yn cael eu disgrifio na'u hadnabod mewn unrhyw adroddiadau neu bapurau a allai ddeillio o'r astudiaeth hon. Mae hysbysiad preifatrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael ar: https://icc.gig.cymru/defnydd-y-safle/hysbysiad-preifatrwydd/

Os byddwch yn dewis caniatáu i ni gysylltu â chi ynglŷn â gwaith ymchwil yn y dyfodol, byddwn yn cofnodi rhai manylion cyswllt gennych a fydd yn cael eu storio ar wahân i'ch ymatebion.

**Sut fydd y wybodaeth a roddaf yn cael ei defnyddio a beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?**
Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn cael eu cyflwyno ar ffurf adroddiad gyda ffeithlun cysylltiedig ac o leiaf un erthygl cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid. Bydd yr holl ganfyddiadau ar gael i'r cyhoedd. Disgwylir y bydd y canfyddiadau ar gael erbyn mis Mehefin 2023. Bydd crynodeb o'r canfyddiadau ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: www.icc.gig.cymru/. Neu fel arall, os hoffech gael copi, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**Pwy sy'n trefnu'r ymchwil?**
Trefnir yr ymchwil gan Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Lles yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor.

**Pwy sy'n ariannu'r ymchwil?**
Ariennir yr ymchwil ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth?**
Mae Pwyllgor Moeseg Academaidd Gofal Iechyd a Gwyddorau Meddygol Prifysgol Bangor wedi rhoi cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr astudiaeth hon (cyfeirnod 2021-17050). Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn grŵp o bobl annibynnol sy'n adolygu ymchwil er mwyn diogelu urddas, hawliau, diogelwch a lles cyfranogwyr ac ymchwilwyr. Mae'r prosiect hefyd wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Manylion Cyswllt**

**M.E.L Research**
Somerset House
37 Temple St
Birmingham
B2 5DP
Ffôn: 0800 073 0348.
E-bost: phw.survey@melresearch.co.uk

**Hayley Janssen**
Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
Clwydian House,
Parc Technoleg Wrecsam,
Wrecsam.
LL13 7YP
E-bost: gig.gwres@wales.nhs.uk

**Diolch am eich amser**